**RHONDDA CYNON TAF COUNCIL PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 2 Medi 2021 at 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd G Caple (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd D Williams

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd R Bevan, Y Cynghorydd J Barton, Y Cynghorydd S Belzak, Y Cynghorydd J Brencher, Y Cynghorydd G Holmes and Y Cynghorydd R Yeo

### 47 Croeso ac Ymddiheuriadau

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen.

### 48 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

### 49 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

### 50 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**51 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf yn rhai cywir.

**52 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**53 CAIS RHIF: 21/0635/10**

**Byngalo 3 ystafell wely ar wahân gyda pharcio ar gyfer 3 char (Yn effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus PON/4/1). Fferm Bodwenarth, Llys yr Albion, Cilfynydd**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Ms Amanda Lloyd (Ymgeisydd)
- Gwrthwynebydd 1 (Gwrthwynebydd)

Bu'r Ymgeisydd yn gweithredu'r hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Belzak, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Ymweliad Safle i ystyried y problemau draenio posib ac uchder y ffens arfaethedig.

**54 CAIS RHIF: 21/0431/15**

**Amrywio amod 2 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo) i ofyn am ganiatâd ar gyfer lleoliad adeilad, uchder adeilad, cwrt blaen a chladin allanol diwygiedig. (Cais gwreiddiol: 19/0791/10) (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig 02/08/21). Uned Storio oddi ar Heol y Beddau, Pontypridd, CF38 2AG**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais fel bod modd i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i ymweld â'r safle i ystyried y pellter o eiddo cyfagos, p'un a yw'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r ardal leol a materion priffyrdd sy'n ymwneud â'r lôn

sy'n cyrchu'r safle.

Yng ngoleuni'r penderfyniad uchod, dywedodd y Cadeirydd wrth y sawl a oedd yn bresennol er mwyn annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais yma y byddai rhaid iddyn nhw wneud cais i annerch y Pwyllgor eto pan fyddai'r mater yn cael ei drafod, pe hoffen nhw wneud hynny.

**55 CAIS RHIF: 21/0809/10**

**Trosi llofft dormer cefn arfaethedig, cyntedd blaen ac estyniad i'r gegin. 38 Clos Myddlyn, Beddau, Pontypridd, CF38 2JS**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Ms Jemma Ajax (Gwrthwynebydd)
- Ms Naomi Jones (Gwrthwynebydd)

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, roedd yr Aelodau o'r farn i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr, Ffyniant a Datblygu, oherwydd yr effaith ormesol y byddai'r cynllun yn ei gael ar yr eiddo cyfagos a phryderon o ran gorddatblygu'r safle.

O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**56 CAIS RHIF: 21/0001**

**Amrywio amod 1(c) ac 1(d) o ganiatâd cynllunio 09/0386/13 i ganiatáu ar gyfer ymestyn y terfynau amser a ganiateir ar gyfer cymhwyso materion wedi'u cadw'n ôl am 10 mlynedd arall, ac ymestyn yr amserlen a ganiateir ar gyfer cychwyn y datblygiad am 12 mlynedd arall neu am 2 flynedd o ddyddiad y materion wedi'u cadw'n ôl olaf i'w cymeradwyo, pa un bynnag yw'r hwyraf. Tir yn hen Lofa Coedelái oddi ar yr A4119, Coedelái.**

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Will Ryan (Asiant) a oedd wedi gofyn am annerch y Pwyllgor yn gallu cysylltu â'r cyfarfod rhithwir i wneud hynny.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ddiwygio amod 1 er mwyn galluogi'r gwaith i ddigwydd fesul cam, ac yn amodol ar ddiweddaru/diwygio'r Cytundeb Adran 106 cyfredol i nodi'r canlynol:

- Talu cyfraniadau priffyrdd fesul cam fel a ganlyn -

- llog ar 4% yn uwch na chyfradd fenthyca sylfaenol Banc Barclays plc o bryd i'w gilydd

- £197,000 yn daladwy cyn meddiannu buddiol o 12,150 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £184,000 yn daladwy cyn meddiannu buddiol 24,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £42,250 yn daladwy cyn meddiannu buddiol o 26,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £42,250 yn daladwy cyn meddiannu buddiol 29,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £42,250 yn daladwy cyn meddiannu buddiol o 31,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £42,250 yn daladwy cyn meddiannu buddiol 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr.

Talu cyfraniadau Trafnidiaeth Gyhoeddus a seilwaith fesul cam fel a ganlyn -

- £9,000 yn daladwy cyn meddiannu buddiol o 12,150 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £8,000 yn daladwy cyn meddiannu buddiol 24,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £2,000 yn daladwy cyn meddiannu buddiol 26,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £2,000 yn daladwy cyn meddiannu buddiol 29,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £2,000 yn daladwy cyn meddiannu buddiol o 31,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr;

- £2,000 yn daladwy cyn meddiannu buddiol 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr.

Dynodi Plot N2 ar gyfer ardal hamdden awyr agored

Talu cyfraniad hawl tramwy cyhoeddus o £16,000

Cytuno a gweithredu cynllun rheoli tirwedd a chynefinoedd am gyfnod o 25 mlynedd o ddyddiad y caniatâd cynllunio.

**57 CAIS RHIF: 21/0058/10**

**Tŷ ar wahân gyda garej ddwbl. Hen Safle Glen Transport, Heol Penycoedcae, Penycoedcae, Pontypridd**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Geraint Israel (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Brencher a R Yeo, nad yw'n aelodau o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi eu cefnogaeth ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cais uchod yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a hynny am eu bod nhw o'r farn ei bod hi'n dderbyniol i'w safle gael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl, ac y byddai hyn yn cael effaith fuddiol ar y safle.

O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**58 CAIS RHIF: 21/0335/10**

**Newid defnydd siop wag i fflat hunangynhwysol, ehangu ffenestr 'dormer' gefn a gwaith cysylltiedig. 90 Stryd y Frenhines, Trefforest, Pontypridd, CF37 1RN**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol ei gais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol o ran lleoedd parcio a cholli amwynder, yn ogystal â chael effaith ormodol ar yr ardal. Lleisiodd yr Aelodau bryder hefyd ynghylch gorddatblygu ar y safle o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig.

O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig

neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**59 CAIS RHIF: 21/0613**

**Newid defnydd o siop nwyddau'r fyddin (A1) i siop gwrw a bar coctel (A3) gyda drws ffrynt â rholer. 12 Stryd y Farchnad, Pontypridd CF37 2ST**

Yn unol â chofnod 35 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 12 Awst 2021, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymweliad â'r safle a gafodd ei gynnal ar 24 Awst mewn perthynas â'r cais a gafodd ei argymell i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**60 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 02/08/2021 – 20/08/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.50 pm**

**CLLR G CAPLE**
**Cadeirydd**